| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 20 Ebrill 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cyng. David Smith/ Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karsten Bruβk |
| **Teitl:** | **Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft: Cadwraeth a Gwella Bioamrywiaeth - Dogfen ymgynghori** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar gadwraeth a gwella bioamrywiaeth. Mae swyddogion yn gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau cyfnod ymgynghori cyhoeddus 8 wythnos gydag aelodau o'r cyhoedd, ymgynghoreion statudol, a grwpiau diddordeb amgylchedd naturiol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad ar y mater o ymgynghori cyhoeddus ar y CCA drafft i symud ymlaen tuag at fabwysiadu'r ddogfen. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol o fabwysiadu dogfen yr Awdurdod Cynllunio Lleol, y gall y CCA gael eu trin fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r ddogfen CCA drafft amgaeedig 'Gwarchod a Gwella Bioamrywiaeth', Atodiad I, i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus dros leiafswm o wyth wythnos.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Pan gafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 (CDLl) ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2013, penderfynodd y Cyngor gario pob CCA mabwysiedig ymlaen ar gyfer eu defnyddio fel canllawiau cynllunio mewn perthynas â pholisïau'r CDLl. Cytunwyd hefyd y byddai adolygiad o bob CCA yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl mabwysiadu Cynllun. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y nodyn cyfarwyddyd newydd yn ategu at Bolisi CDLl ategol VOE 5 'Cadwraeth adnoddau naturiol' ac yn disodli Cynllun blaenorol Datblygu Unedol Sir Ddinbych 1996 – 2011, dogfen rhif 18 'Cadwraeth Natur a Gwarchod Rhywogaethau' o 2003.

4.2 Mae bioamrywiaeth yn ystyriaeth berthnasol yn y system gynllunio ffurfiol, heb ystyried y ffaith fod y cynefinoedd neu'r rhywogaethau yr effeithir arnynt yn cael budd o unrhyw warchodaeth statudol. Gellid gwrthod caniatâd cynllunio os na ellir osgoi

niwed sylweddol o ganlyniad i'r datblygiad, neu ei liniaru’n ddigonol neu wneud iawn amdano. Bydd methu cyflenwi’r wybodaeth y gofynnir amdani ac arolygon ecolegol i'r Cyngor, sydd eu hangen i benderfynu ar y cais cynllunio, yn arwain at wrthod caniatâd cynllunio.

4.3 Mae'r CCA arfaethedig yn amlinellu disgwyliadau'r Cyngor o ran y wybodaeth bioamrywiaeth i'w chyflwyno gyda chais cynllunio, cwmpas a safonau arolygon ecolegol a gyflwynwyd; ac yn tynnu sylw’n gryno at ddyletswyddau cyfreithiol ychwanegol posibl ar ddatblygwyr o ganlyniad i gael caniatâd cynllunio. Mae darpar ymgeiswyr yn cael eu cefnogi drwy amlinellu'r holl ddogfennaeth ofynnol o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na gofyn amdanynt yn ddiweddarach yn y broses o wneud penderfyniadau.

4.4 Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus am o leiaf 8 wythnos a disgwylir iddo ddechrau ym Mai 2016. Ymgynghorir â phob Cyngor Cymuned, Dinas a Thref ynghyd â phobl sydd wedi'u cofrestru ar y gronfa ddata CDLl. Bydd copïau caled o'r holl ddogfennau ymgynghori ar gael ym mhob llyfrgell a siop un stop yn ogystal ag ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

4.5 Bydd sylwadau a safbwyntiau a fynegir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Grŵp Llywio CDLl; cyn gofyn am fabwysiadu’r ddogfen gan Bwyllgor Cynllunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y brîff datblygu safle yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- Moderneiddio'r Cyngor i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni ragwelir y bydd cymeradwyo'r ddogfen CCA drafft i fod yn destun ymarfer ymgynghori gyda chyrff statudol a’r cyhoedd yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y tîm Rheoli Datblygu yn elwa o fabwysiadu’r ddogfen wrth gyflenwi ein cwsmeriaid gyda’r holl wybodaeth angenrheidiol am gydymffurfiaeth bioamrywiaeth cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio, ac, felly, gwella'r broses penderfynu.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Mae ymarfer sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn dod i'r casgliad nad oes angen AEC (llawn). Mae’r templed AEC wedi’i lenwi wedi’i atodi yn Atodiad II yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Nid oes unrhyw ymgynghori ffurfiol wedi’i gynnal eto, ond roedd swyddogion o Bolisi Cynllunio, Rheoli Datblygu ac Ecolegwyr Sir yn cymryd rhan wrth ddrafftio'r ddogfen CCA. Cynhaliwyd sesiwn gweithdy gydag aelodau o Grŵp Llywio'r CDLl ym mis Hydref 2015 a Mawrth 2016.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni ragwelir y bydd cytuno ar y CCA drafft 'Cadwraeth a Gwella Bioamrywiaeth' yn creu unrhyw gost ychwanegol. Os bydd unrhyw gostau yn codi bydd angen eu cynnwys o fewn y cyllidebau refeniw presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Yn absenoldeb canllaw cyfredol mae perygl na fydd y Cyngor yn gallu darparu cyngor cynllunio cywir i'w gwsmeriaid ynglŷn â chynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).